Hawdd ei Deall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o'r ail gyfarfod, a gynhaliwyd ar 21 Medi 2022. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Samantha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Andrea Meek** – Prifysgol Caerdydd
- **Caroline Eayrs** – Gofalwr teuluol
- **Caroline McCarthy** – Pobl
- **Carys Hughes**
- **Cath Thornton** – Cyswllt Conwy
- **Darren Smith** – Gofalwr teuluol
- **Dawn Cavanagh** – Prifysgol De Cymru
- **E Payne** – yr Adran Gwaith a Phensiynau
- **Emma Alcock** – Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf

- **Eve Exley** – Tai Dewis Cyntaf
- **Fran Holmes** – Cyswllt Conwy
- **Gail Devine** – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
- **Geraint Jones-Griffiths** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Grace Coppock** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Grace Krause** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Helga Uckermann** – Cymdeithas Cyngor ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- **Humie Webbe** – Cyd-Gadeirydd RareQol a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu
- **Ishbel Hansen** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe
- **Iwan Good** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Jeremy Tudway** – Dimensions UK
- **June Williams** – Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf Morgannwg
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Kamar El Hoziel** – Cyswllt Conwy
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Leanne Davies** – Cyswllt Conwy
- **Lisa Morgan** – Dimensions Cymru
- **Nick Davies** – Gofalwr teuluol
- **Richard Redmond** – Person ag anabledd dysgu
- **Rob Parkes** – Service Robotics Ltd
- **Sara Meaghe**r – Walsingham Support
- **Sarah Winte**r – Gyrfa Cymru
- **Shayna** – Cyswllt Conwy
- **Sophie Trow** – Cyswllt Conwy
- **Steve Cox** — Perthyn
- **Stuart Todd** – Prifysgol De Cymru
- **Thomas Oakes** – Person ag anabledd dysgu
- **Wendy James** – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru



# Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- Eric Price – Anheddau Cyf
- Janis Griffiths – Gofalwr teulu
- Kate Wyke – Elusen Contact
- Sian Owen – Gofalwr teulu
- Teresa Hassell – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Tracy O'Donnell – Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd

## Gwybodaeth am y ddogfen yma




Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.




Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar dudalen 13.

## 1. Croeso a chyflwyniadau



Croesawodd Sioned Williams, Aelod o'r Senedd, bawb i'r cyfarfod.



Dywedodd Sioned wrth bawb fod y cyfarfod yn ymwneud â gwiriadau iechyd blynyddol i bobl ag anabledd dysgu.


## 2. Cyflwyniad gan Dawn Cavanagh am wiriadau iechyd blynyddol



Mae Dawn Cavanagh yn ymchwilydd ym Mhrifysgol De Cymru. Mae hi hefyd yn rhiant i ddyn ifanc sydd ag anabledd dysgu ac awtistiaeth.



Soniodd Dawn am y gwaith ymchwil a wnaed ganddi ynghylch gwiriadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.



Roedd y gwaith ymchwil hwnnw'n ymwneud â phrofiadau pobl ag anabledd dysgu o ran cael gwiriadau iechyd blynyddol.



Dangosodd gwaith ymchwil Dawn fod rhai pobl sy'n byw mewn ardaloedd cefn gwlad yn ei chael hi'n anodd trefnu gwiriad iechyd blynyddol.




Roedd ei hymchwil hefyd yn dangos bod rhai pobl yn fodlon â'u gwiriadau iechyd, ond bod eraill yn anfodlon.



Dyma rai o’r rhesymau pam nad oedd rhai pobl yn fodlon â’u gwiriadau iechyd blynyddol:








- Gormod o frys – dim digon o amser
- Nid oedd y meddyg yn eu trin â pharch
- Ni wnaeth y meddyg yr holl wiriadau pwysig
- Ni wnaed unrhyw addasiadau rhesymol
- Ni roddodd y meddyg gynllun gweithredu iechyd iddynt
- Ni chafodd rhai problemau iechyd eu datrys yn gyflym, ac ni chafodd rhai eu datrys o gwbl
- Roedd peth o'r wybodaeth a roddwyd i bobl am eu hiechyd yn anodd ei deall.

## 3. Cwestiynau




Gofynnodd rhai pobl yn y cyfarfod gwestiynau i Dawn am ei gwaith ymchwil.



Dywedodd Kamar El Hoziel nad yw rhai meddygon wedi cael hyfforddiant ynglŷn â gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu. Mae hyn yn bwysig iawn.



Gofynnodd Steve Cox a oedd unrhyw wybodaeth am faint o bobl ag anabledd dysgu ym mhob rhan o Gymru sydd wedi cael gwiriad iechyd blynyddol.



Dywedodd Dawn fod y wybodaeth yn awgrymu mai dim ond tua 30 i 40 o bobl o bob 100 sydd ag anabledd dysgu yng Nghymru sy'n cael gwiriad iechyd blynyddol.




Yn ogystal, gofynnodd Steve a oedd rhestr wirio ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a'u gofalwyr, o ran yr hyn a ddylai ddigwydd wrth gynnal gwiriad iechyd blynyddol.




Bu Anabledd Dysgu Cymru yn gweithio gyda Gwelliant Cymru ar y broses o lunio gwybodaeth hawdd ei darllen ynghylch cael gwiriad iechyd blynyddol.

Gallwch weld y wybodaeth hawdd ei darllen a'r rhestr wirio ar wefan Gwelliant Cymru: [https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/ein-gwaith/rhaglen-gwella-iechyd-anabledd-dysgu/adnoddau-rhaglen-gwella-iechyd-anabledd-dysgu/gwiriadau-iechyd-blynyddol/](https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/ein-gwaith/rhaglen-gwella-iechyd-anabledd-dysgu/adnoddau-rhaglen-gwella-iechyd-anabledd-dysgu/gwiriadau-iechyd-blynyddol/)



Eglurodd Dawn hefyd nad oes gofyn i **feddygon teulu** yng Nghymru wneud gwiriadau iechyd blynyddol.

Os ydynt yn dewis eu gwneud, maent yn cael arian ychwanegol.

Mae **meddygon teulu** yn feddygon sy'n gweithio mewn cymunedau lleol, nid mewn ysbytai. Nhw yw'r meddygon y byddwch yn siarad â nhw fel arfer pan fyddwch yn sâl ond nid oes angen i chi fynd i'r ysbyty.



Mae Dawn o'r farn y byddai'n well pe bai **pob meddyg teulu** yn gorfod cynnal gwiriadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.



Mae Dawn am sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gwybod am ei gwaith ymchwil, yn enwedig **meddygon teulu**.



Dywedodd Sioned y gallai'r grŵp ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â phwysigrwydd cynnal gwiriadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.



Yn y llythyr hwnnw, byddai modd gofyn hefyd am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn cael eu gwiriadau blynyddol.

## 4. Cyflwyniad gan Gyswllt Conwy am wiriadau iechyd blynyddol

Siaradodd Hyrwyddwyr Gwiriadau Iechyd o Gyswllt Conwy yng Ngogledd Cymru am eu gwaith.



Mae'r Hyrwyddwyr Gwiriadau Iechyd yn siarad â phobl ag anabledd dysgu am y materion a ganlyn:

- Beth yw gwiriad iechyd?
- Y rhesymau pam fod gwiriadau iechyd yn bwysig.
- Yr hyn y dylech ei ddisgwyl pan fyddwch yn cael gwiriad iechyd.




O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae mwy o bobl ag anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru wedi dweud y byddan nhw'n trefnu gwiriadau iechyd blynyddol.

## 5. Cwestiynau




Gofynnodd rhai pobl yn y cyfarfod gwestiynau i'r Hyrwyddwyr Gwiriadau Iechyd am eu gwaith.



Dywedodd pobl eu bod o'r farn y dylai pob bwrdd iechyd yng Nghymru gael Hyrwyddwyr Gwiriadau Iechyd.



Dywedodd Sioned y gallai'r grŵp ysgrifennu at y byrddau iechyd i ofyn iddyn nhw ystyried talu am Hyrwyddwyr Gwiriadau Iechyd yn eu hardaloedd os nad ydynt yn gwneud hynny'n barod.

# 6. Unrhyw fater arall a'r cyfarfod nesaf




Diolchodd Sioned i bawb a roddodd gyflwyniad yn y cyfarfod.




Dywedodd Sioned wrth y grŵp fod y Comisiwn Etholiadol am wybod beth yw barn pobl am y canllawiau newydd ynghylch ei gwneud hi'n haws i bobl anabl bleidleisio mewn etholiadau.




Mae'r canllawiau newydd ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau**.

> **Swyddogion Canlyniadau** yw'r unigolion sy'n gyfrifol am etholiadau mewn ardal leol.




Gallwch ddarllen y canllawiau newydd a rhannu eich barn â'r Comisiwn Etholiadol ar wefan y sefydliad:
https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/ein-safbwyntiau-hymchwil/ein-hymgynghoriadau/ymgynghoriad-ar-gyfarwyddyd-drafft-i-swyddogion-canlyniadau-cymorth-gyda-phleidleisio-i-bobl-sydd-ag




Dywedodd Sioned wrth y grŵp y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu yn cael ei gynnal ar 7 Rhagfyr 2022 am 12.30.

Dywedodd Sioned ei bod yn bosibl y bydd y grŵp am siarad am yr **argyfwng costau byw** yn y cyfarfod nesaf.




Mae'r **argyfwng costau byw** yn ymwneud â'r ffaith bod pris llawer o bethau yn codi. Mae'r pethau hyn yn cynnwys nwy, trydan, petrol a bwyd.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i rai pobl dalu am bethau sydd eu hangen arnynt.




Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau pwysig i'w trafod yn y cyfarfod nesaf, gallwch anfon neges e-bost at Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk.



Ar ôl y cyfarfod, bydd Sam yn anfon y ddau gyflwyniad a roddwyd i bawb a wnaeth gadw lle yn y cyfarfod.



Diolchodd Sioned i bawb am ddod i'r cyfarfod.

# Geiriau anodd

## Meddyg Teulu

Mae meddygon teulu yn feddygon sy'n gweithio mewn cymunedau lleol, nid mewn ysbytai. Nhw yw'r meddygon y byddwch yn siarad â nhw fel arfer pan fyddwch yn sâl ond nid oes angen i chi fynd i'r ysbyty.

## Argyfwng costau byw

Mae'r argyfwng costau byw yn ymwneud â’r ffaith bod pris llawer o bethau yn codi. Mae’r pethau hyn yn cynnwys nwy, trydan, petrol a bwyd.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i rai pobl dalu am bethau sydd eu hangen arnynt.

## Swyddogion Canlyniadau

Swyddogion Canlyniadau yw'r unigolion sy'n gyfrifol am etholiadau mewn ardal leol.